# Glas

Bwletin misol Llén natur Cymdeithas Edward Llwyd

Rhif 200
Hydref 2024

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn

# 200



LLUN - Dathlu'r 100 (Llun Keith O'Brien, Trawsfynydd, 24 Ebrill 2016

Llên Natur · Llén natur · Glas

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy bwletinglas.llennatur@gmail.com

Rhif Elusen Cymdeithas Edward Llwyd 1126027

Cymuned Llén natur Cymdeithas Edward Llwyd

## Bwletin Llên Natur 4 - Mai 2008

**Y Sudd yn Rhedeg**



Llun: *Illustrated London News* 16 Ebrill 1859

Gwelodd y gwanwyn cynnar brysurdeb mawr ar un adeg yng nghoedwigoedd Cymru. Dyma pryd yr oedd sudd y coed yn codi, a rhisgl y dderwen o'r herwydd yn haws ei "bilio". Yma yng ngorllewin Ewrop, defnyddiwyd rhisgl derw i "biclo" neu drin lledr ers o leiaf y Canol Oesoedd, diolch i'r taninau asidig sydd yn rhan o gyfansoddiad y dderwen yn fwy nac unrhyw un o'n coed cynhenid eraill. Mae'n un o'n diwydiannau coll erbyn hyn, ac aeth rhialtwch a miri'r gwaith yng nghanol heulwen ffres y gwanwyn bellach yn angof. Ymunai pawb yn y cynhaeaf, gyda chlecian y pilbrenni yn diasbedain rhwng y boncyffion o fore gwyn tan nos. Meddai Francis Kilvert, rheithor Cwm Cleirwy, ar 24 Ebrill 1872: *the country is filled with the ringing strokes of the chopping axes…we heard their sturdy strokes from the Castle Clump after it had grown dark. The men were working late felling oak, as the sap is running fast and the bark strips well.*

Roedd mwy nac un ffordd o risglo coeden. Yn ardal Llanymddyfri cafodd y goeden ei rhisglo ar ei thraed, gyda'r merched yn gweithio o ysgolion a'r dynion ifanc mwy mentrus yn cwblhau'r gwaith ymhlith y canghennau uchel. Dro arall torrid y goeden o flaen llaw, cyn i bawb fynd am y cyntaf i risglo drostynt eu hunain .

Dim ond enwau lleoedd sydd gennym yn gof bellach o'r diwydiant rhisglo - enwau fel Erw'r Barcws (Sir Amwythig), Gwern y Rhisg (Llanrwst), Hafod y Rhisg (Llanfaglan a Beddgelert), Rhisga (Caerdydd, mae'r enw hwn yn mynd yn ôl i 1330), Barcdy (Talsarnau), Ty'r Barcer (Fflint), Nant Rhisglog (Maldwyn), Rhiw Rhisglen (Caerfyrddin) a myrdd o rai eraill. Ac mae hen felin risgl Rhaeadr wedi ei "biclo" ei hun erbyn hyn yn Amgueddfa Sain Ffagan. D.B.

***Cofnod o ardal Llanfaglan***

Hafod y Rhisg, adfail ar dir Plas Llanfaglan heddiw. Cofnod o gyfrif gwerthu rhisgl coed ar y 14ain o Dachwedd 1806: "Derw (182) £69/12/6, Rhisgl £72/0/0, "Cord" £6/0/0".....Mwy na thebyg, mynd i'r tanws byddai'r rhisg yng Nghaernarfon. I.W.

## Hoffi geiriau - Bwletin 5, Meh. 2008

**Hela Geiriau**





Ydych chi'n hoff o glôfs? Ydych chi'n gwybod be ydyn nhw? Ac o ble daeth y gair?
Clôfs (Cymraeg) < *cloves* (Saesneg) < *cloues* (Ffrangeg). Ystyr y gair Ffrangeg?...hoelion. Pam hoelion? Wel sbiwch ar eu siap nhw !

**Rysait Pwdin Hoelion (a 'fala)**

1) Pliciwch, sleisiwch a thynnwch tu mewn i ddigon o afalau coginio i orchuddio llestr pobi wedi ei thaenu â menyn
2) Ychwanegwch 4-5 clof a 2 lwy fwrdd o resins di-had.
3) Taenwch ychydig o sudd lemwn a siwgr dros y cyfan.
4) Ar ben hwn arllwyswch does wedi ei wneud o 2 gwpaned o flawd plaen a phinsiad o halen, hanner cwpaned o siwgr, 2 wy a pheint o lefrith.
5) Pobwch mewn popty (350°F) am awr

## Tywydd a Hanes - Bwletin 2, Maw. 2008




**1817 Ynys Seiriol** [1] Cafodd llong o Brwsia ei dryllio ar yr ynys gan ryddhau llygod mawr.

**1847 Llandudno, Clawdd Gored** [2] (lleoliad y Grand Hotel heddiw) Cafodd yr *Archiduco Palatino* ei hyrddio yn erbyn clogwyn o'r enw Clawdd y Gorad, digwyddiad sydd wedi ei serio ar gof hen bobl Llandudno fel dryllio Llong yr India Corn. Profodd y cargo o india corn yn ormod o demtasiwn i'r bobl cargo ac fe gofir y digwyddiad fel Y Diarddel Mawr oherwydd rhan honedig y Methodistiaid Wesleaidd yn yr ysbeilio!

**Ar ddiwrnod y Nadolig 1806** [3] dymchwelodd cwch fferi Conwy tra'n cario'r Irish Mail a chollodd tua dwsin o bobl eu bywyd.

**Noson 25-26 hydref 1859** (mewn coch ar y map)
Y *Royal Charter, Messenger, Jane, Alma, Duchess of Gloucester, Sylph, Alice, Queen Elizabeth* a'r *Eagles*

**5ed Awst 1820** [4] Drylliwyd cwch o Fôn rhwng Moelydon a Chaernarfon ar ei ffordd i farchnad Caernarfon. Collodd 24 eu bywyd, ac fe achubwyd un Hugh Williams.

**1af Ionawr 1824** [5] Hornby Cave y Great Orme

**17eg Awst 1831** Bae Biwmares [6] Drylliad llong y *Rothsay Castle* ar y Dutchman's Bank. Yn fuan ar ôl gadael Lerpwl dechreuodd y gwynt chwythu o'r gog orllewin …ni achubwyd ond 23 o bersonau allan o 150 oedd ar fwrdd y llong…cafwyd cyrff llawer yn Aber, Llanfairfechan etc

**6ed Ionawr 1839** [7] Point Leinws; [8] *Lockwoods*, Pen y Gogarth; [9] *St Andrew*, Y Rhyl.

**20fed Gorff. 1845** [10] *Glendower*, Porthmadog

**16eg Ionawr 1854** [11] *John O'Gaunt*, Trearddur Bay

**26ain Ionawr 1854** [12] ***Harry Furlong***, Gogledd Môn

**18fed Hydref 1858** [13] Ynys St Tudwal - Anfarwolwyd yr *Ann* fel Fflat Hugh Pugh (y Capten) ar ôl mynd i drafferthion wrth gario llwyth o goed i'r Bermo:

*"Fflat Huw Puw yn hwylio, Dafydd Jones yn rhiffio, Huw Puw wrth y llyw, Yn gweiddi Duw a'n helpo".*

Hwn yw'r unig bennyll o'r gân wreiddiol i oroesi (Ivor Wynne Jones Shipwrecks of North Wales)

**14eg Ionawr 1865** [14] *Lelia*, Rhyl;

**24ain Chwefror 1880** [15] *Resurgam*, Pen y Gogarth.

**13eg Hydref 1881** [16] *Cyprian*, Bae Caernarfon

**10eg Chwefror 1889** [17] *Enterprise*, Penrhos Caergybi

**11eg Tachwedd 1893** [18] *Ivanhoe*, West Shore, Llandudno

**8ed Hydref 1896** [19] *Lady Agnes*, Palas yr Esgob, Pen y Gogarth.

**1af Chwefror 1892** [20] *Abbey* a'r *Agnes*, Bae Llandudno.

**7fed Tachwedd 1890** [21] *Planet* a'r *Saron*

**Llongddrylliadau ym Mhrydain y gaeaf hwn**

Llong nwyddau yr *Horncliff* yn mynd i drafferthion ger ynysoedd y Scilly ar y 1 Chwefror 2008. Cafodd ei tharo gan don enfawr mewn storm nerth 10. Anafwyd y capten yn ddrwg ond fe'i achubwyd y diwrnod wedyn.

Llong y *Riverdance* yn bwrw ei llwyth o filoedd o fisgedi ger Blackpool yn yr un storm ar y 31 o Ionawr. Symudodd ei llwyth ar ôl cael ei tharo gan don enfawr.

## Teithiau Cymdeithas Edward llwyd

Y wefan a'r tudalen Facebook - un o brif weithgareddau'r Gymdeithas yw'r rhaglen gynhwysfawr o deithiau maes a gynhelir bron pob dydd Sadwrn mewn tri rhanbarth drwy Gymru: Gogledd Dwyrain, Gwynedd a Môn, y De a'r Canolbarth.

www.llên-natur.com…
Bwletin Llên Natur…
Llên Natur…
Glas…

**ers 2008**

**200 rhifyn ar gael ar y we - Cliciwch!**



# Pan ddechreuon ni gyhoeddi 'Bwletin Llên Natur' yn 2007...

Pan ddechreuon ni gyhoeddi 'Bwletin Llên Natur' yn 2007, ychydig a wyddai'r Golygyddion ar y pryd, sef DB ac Ifor Williams, y byddai'n dal i fynd 16 mlynedd yn ddiweddarach ar ôl sawl ail-genedigaeth. Y nod ar y pryd, fel ag y mae o hyd, oedd adlewyrchu "Natur" yn ei holl amrywiaeth 'polimathig' yn unol a gwaddol gogoneddus Edward Llwyd ei hun. Mae llawer o wedi digwydd yng Nghymru a'r byd tu hwnt yn y blynyddoedd a aeth heibio wedyn - twf yn ymwybyddiaeth o Newid Hinsawdd, Newid Hinsawdd ei hun yn mynd rhagddo ar gyflymdra, twf yn y cyfryngau cymdeithasol ar draul hen arferion darllen o bapur, yr Argyfwng Natur a thwf yn yr ymwybyddiaeth o rywogaethau oedd cynt yn destun difaterwch ar y gorau a chasineb ar y gwaethaf. Mae Prosiect Llên Natur wedi adlewyrchu'r tueddiadau hyn ar ffurf y Bwletin - ac yn ddiweddarach Glas - trwy fanteisio arnynt, ac wedi cyfrannu gobeithio, mewn ffordd fechan yn y byd Cymreig a Chymraeg, i'w lliniaru. Ac yn bwysicaf oll efallai, daeth gwaed newydd atom i gyd-olygu a chysodi Glas, sef y Llydawr sy'n siarad Cymaeg, Dominig Kervegant.

**Cymdeithas Edward Llwyd**

**Cylchlythyr Rhif 1**

**www.llên-natur.com**

*(tamaid i aros www.pryd !)*

*Gwefan i Naturiaethwyr a Phobl Cymru*

Y datblygiad mwyaf dros y cyfnod oedd sefydlu Cymuned Llên Natur fel Grŵp Facebook. Er nas cynllunwyd hi fel hyn bu'r deunydd beunyddiol oddiwrth y 6.6 mil o aelodau yn gyfle na ellid ei anwybyddu, sef ceisio rhoi deunydd dros dro y Grŵp hwn ar gof a chadw. Yn wahanol i lawer o gyhoeddiadau sydd mewn argyfwng oherwydd diffyg cyfrannwyr, mae Glas bron yn gyfan gwbl bellach yn addasu a chasglu ynghyd cyfraniadau i'r Grŵp 'Cymuned' i greu naratifau natur newydd unigryw. Does dim prinder straeon wrth greu rhifynnau misol Glas - yr hyn dydyn ni DDIM yn gwybod yw faint o ddarllen sydd arno. A chan ei fod yn ddigidol yn unig i gadw costau i lawr, hyderwn o hyd bod fersiynau papur yn fwy sicr o'u parhad na mympwyon y cyfryngau digidol er mor rhyfeddol ydynt yn eu galluoedd chwyldroadol. Fe wyddom bod rhai ohonoch yn argraffu eich rhifynnau misol a HIR BARHAD I HYNNY. Mae Glas felly yn 'briodas wedi ei wneud yn y nefoedd' - cyfuno manteision enfawr y cyfryngau cymdeithasol gyda hen fanteision y papyrus gynt! Ymlaen...



DUNCAN BROWN



DOMINIG KERVEGANT

**Dyma'r ddau olygydd presennol**

**Peidiwn ag anghofio aelodau'r tîm gwreiddiol:**

**Ifor Williams, Twm Elias, Gwyn Williams, Euros ap Hywel a'r cyfieithwyr Graham** (Ffrangeg) **a Marika** (Almaeneg).

**Ond chi gyfranwyr cymuned Llên Natur yw sylfaen y bwletin hwn.**

## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

## Gwenith Gwyn - Medi 2008


St. Gerand le Puy, Allier, Ffrainc 2008

***Gwenc'holo***
**mis y cynhaeaf,**
**mis y medi**
**mis y gwelltyn gwyn**

Yn y Llydaweg, yr enw am fis Medi yw *Gwenc'holo*
*gwenn* = gwyn
*golo* = gwellt

*kolo-to* = gwellt i'w rhoi ar y to

*koloeg* = tas wellt

*koloenn* = cwch gwenyn (o wellt)

### Bugeilio'r GWENITH GWYN

Efallai bod y Ffrancwr yn gwybod cystal â neb pa mor bwysig ydi bara yn ein hanes; mae cwmnïaeth dda o gwmpas y bwrdd bwyd yn gymaint rhan o'u diwylliant o hyd. Daeth ein gair "cwmni" yn anuniongyrchol o'u gair nhw *compagnie*, a'r gair hwnnw yn ei dro yn dod yn wreiddiol o'r Lladin *cum panis*, sef "ynghyd a bara". Mae'r gair yn datgan yn well na'r un gair arall mai creaduriaid cymdeithasol ydym. Yn wir rydym yn unigryw ymhlith yr anifeiliaid yn hynny o beth yn ôl Martyn Jones* wrth i ni rannu bara o gwmpas y tân gan syllu i lygaid ein gilydd mewn cyfeillgarwch a chynhesrwydd, dan wenu. Rhythu ar ei gilydd i fygwth mae creaduriaid eraill. Newidiodd y tân i fod yn fwrdd, ac erbyn hyn, newidiodd y bwrdd ar ambell aelwyd i fod yn deledu.

Mae taith drwy Ffrainc ym mis Mehefin yn bennaf yn daith trwy gnydau a fydd yn dorthau i borthi sgwrs ymhen hir a hwyr. Ymysg y cnydau amlwg ar y daith mae *blé* (gwenith), *orgue* (haidd), *avoine* (ceirch) a *seigle* (rhyg). Atgof yn unig sydd gennym yng Nghymru bellach o'r rhyg, mewn enwau lleoedd. Dywed Martyn Jones fod yr awydd am fara gwyn neu fara cann yn dyddio'n ôl ymhell iawn. Nid cyd-ddigwyddiad meddai mo'r tebygrwydd rhwng y gair gwenith a'r gair gwyn yn yr ieithoedd: gwenith gwyn, *white wheat* a *blé blanc*. I'r tlodion y perthynai'r dorth ryg frown, o leiaf hyd nes i ni ddechrau poeni am ein bwals a bwyta'n iach. Mae hyd yn oed enwau sentimental masnachol megis y *Mighty White* a *Mother's Pride* yn cario neges oesol y bara amheuthun gwyn fel canolbwynt cynnes yr aelwyd a'r teulu.

Fe drodd poblogaeth Prydain o fod yn fwyafrif gwledig i fwyafrif trefol yn yr 1830au ddegawdau cyn i hynny ddigwydd yng ngwledydd eraill Ewrop. Trefolwyd, masnacheiddwyd a rhyngwladolwyd y diwydiant bwyd yma mewn modd nas digwyddodd o gwbl yn Ffrainc. Cadwodd Ffrainc ei thraddodiad ar gost mawr hyd y presennol. Mae ei chaeau a'i siopau yn tystio i hynny ac yn fodd i ninnau gofio ein gwreiddiau yn oes y Mac-fwydydd.



*Jones, Martyn (2007) Feast: Why Humans Share Food Gwasg Prifysgol Rhydychen *Addasiad o erthygl a ymddangosodd gyntaf yn Y Cymro*

## Merched y matiau - Bwletin 8

**O Ddyddiadur Robert Bulkely, Dronwy, Môn**

22 Chwefror 1632 *h pryce ap h* [enw wedi ei dalfyrru] *gaue me a 100 taneu moresg*
11 Gorff 1632 *all windy, J pd* [*I paid*] *2d for taneu Moresk*
12 Hydref 1632 *J pd for taneu 6d*
12 Hydref 1633 *J set to Aberfro fayre, J bought there 3 yokes 18d 200 taneu 6d*

*Transactions of the Anglesey Antiquarian Society 1937*


Merched y matiau, Niwbwrch, ddechrau'r ganrif ddiwethaf

Mae'r rhigwm bach a gafwyd gan un o gyn-drigolion yr ardal yn dangos i'r diwydiant fanteisio ar lafur plant, ac nad oedd pob amser yn waith iach iawn chwaith:

*Hogyn bach wedi marw*
*Ei fam a'i dad o'n crio'n arw*
*Gobeithio ei fod o'n well ei gartref*
*Nac yn Niwbwrch yn gwneud matiau*

## Bwletin Llên Natur 4 - Mai 2008




Ychydig cyn naw o'r gloch, nos Iau, fe ddaeth 'na alwad ffôn. Roedd y cyfaill pluog uchod wedi bod yn swatio ar frigyn llysiau'r cythraul ger Pont Garreg Hylldrem er 7.15 (o leiaf) y noson honno. Mawr ddiolch i Emlyn a John am ffonio - John oedd wedi' weld o gyntaf, wrth fynd a'r ci am dro. Yn rhyfeddol, roedd yr aderyn yn dal yno pan ês i yno i dynnu'r llun 'ma tua pum munud i naw. Rhwng y canfod cyntaf a hynny, roedd yr hogia wedi bod adref i nol camerau a dychwelyd.

Pan welis i o, roedd yr aderyn yn hollol effro, yn edrych o'i gwmpas, a hollol ddi-gyffro hefyd. Mi ges inna gyfle i dynnu'r llun uchod a ryw 4-5 arall cyn i'r aderyn ddiflannu i'r tywyllwch. I'r sawl sydd ddim yn gyfarwydd a'r ardal, mae y bont ryw hanner milltir neu fwy o bentref bychan Tan y Lan ac ymhell o gyrraedd y goleuadau stryd. O edrych tros wal y bont, roedd yr aderyn ryw bedair troedfedd oddi tanom ni, a rywbeth tebyg uwchben y dwr. Ochr 'isa' y bont oedd hyn - a'r lli byrlymus (ar ôl glaw trwm dydd Mercher) yn dod allan dan y bont ar ei hynt i lawr i afon Dylif ac, yn honno, i'r Glaslyn.

Gyda llaw - tydi'r lliwia yn y llun ddim yn berffaith, mi wn - 'doedd fflach gwantan fy nghamera i ddim yn ddigon cryf i oleuo'r aderyn, ac yng ngoleuni lamp John y tynnwyd y llun mewn gwirionnedd.


Roedd hi yn rhy dywyll (naw o'r gloch nos yn Ionawr oedd hi, wedi'r cyfan) i'r aderyn fedru gweld i mewn i'r dwr. 'Sgwn i, felly, be oedd o'n 'i wneud yno - clwydo heb gysgod ? Gorffwys ar ôl ryw antur ?
Aled Jones *Galwad Cynnar.*

# Bywyd Gwyllt Wcráin

**Dyma ychydig o luniau i ddangos cefnogaeth i bobl Wcráin**



**■ Hocysen wyllt ■ *Tilihul* ■ llun Matskov**



**■ *"peregusna" (перегузня)* ■ ffwlbart brith ■ Llun Laszlo Szabo-Szeley (Comin Wicimedia)**



**■ Llwynog ■ Ardal waharddedig Chernobyl ■ Llun Wikiwand**



**■ Aethnen, *Populus tremula* ■ Llun I, Hugo.arg (Comin Wicimedia)**



**■Ceffylau Przewalski ■ Ardal waharddedig Chernobyl ■ Llun Wikiwand**



**■ Cath wyllt *(Felis silvestris)* ■ Llun Martin Steiger (Comin Wicimedia)**



**■ Gwiwer fraith y ddaear ■ Ardal Odessa ■ llun V.A. Lobkov (Comin Wicimedia)**



**■ Coedwig bîn ger Kyiv (Klavdievo) ■ Llun *Аимаина хикари* (Comin Wicimedia)**



**■ Llysywen bendoll y nant Iwcráin ■ *Eudontomyzon mariae, Мінога українська* ■ Llun Geomyces .destructans (Comin Wicimedia)**



**■ Mulfran Werdd *(Phalacrocorax aristotelis)* ■ Llun Andreas Trepte (Comin Wicimedia)**



**■ Crëyr bach ■ Traethellau Belosarayskoy (Môr Azov) ■ Andrew Butko (Comin Wicimedia)**




**■ Morgath ddu, *Dasyatis pastinaca* ■ *Морський кіт* ■ Llun Glen Bowman**

## Y Rheithordy - Bwletin 15

### Ebrill, mis yr ydfrain

Tynnwyd y llun hwn o'r gwesty yn Abergwyngregyn ar gyfer cerdyn post tua 90 mlynedd yn ôl. Sylwch ar y nythod brain yn y gongl dde uchaf.......





....mae nhw'n dal yno eleni, yng ngardd Y Rheithordy.



Cafodd Eifion Griffiths, Penisarwaun (chwith), ei fagu yn Aber, ac mae'n cofio mai enw pobl yr ardal ar ydfrain oedd "brain person". Person neu reithor enwocaf Aber yw Hugh Davies (17g), botanegydd ac awdur yr enwog *Welsh Botanology*, a chyfaill i Thomas Pennant. Bydd sgwrs gydag Eifion ar wefan Llên Natur cyn bo hir.

Llên Natur

**Bwletin Llên Natur 15**

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

www.llennatur.com

Ebrill 2009

## Annisgwyl - Rhagfyr 2008

### TYWYS MOCHYN



Teitl annisgwyl y llun hwn yw *"An Irish Obstructionist".* Cafodd Wil Williams, perchen print o'r llun yr esboniad hon" *The Irish Obstrucionists" was the name given to certain Irish MP's who used filibustering to block the passage of bills through the Houses of Parliament. This suggests that the pig in the picture is an Irishman still legally tied his British mistress blocking her advance.*

## Ein Cefn Gwlad - Awst 2008

**RHOSCOLYN ddoe a heddiw**


Beth mae'r ddau lun isod yn ei ddweud am ein cefn gwlad?



"Y tir gorau yn cael ei reoli yn ddwysach heddiw" (sylwch ar y caeau silwair braf yr ochr draw i'r dyffryn heddiw)

"Y tir salaf yn y pant yn cael ei anwybyddu yn amaethyddol heddiw" (drain duon yn ymledu o'r cloddiau)

"Tynnwyd y llun diweddaraf o ardd ty haf, datblygiad y degawdau diwethaf."



## Pysgod i De - Awst 2008

### Beth yw ôl eich traed Carbonaidd?

Roedd Peter Benoit o'r Bermo yn edrych ymlaen yn ddiweddar at gael tamaid o bysgod i de. Mi brynodd ddarn o hadog wedi ei rewi mewn archfarchnad. Sylwodd ar y print mân ar y cefn fod y darn o bysgodyn wedi ei ddal yng ngogledd Môr yr Iwerydd. "Mi wnaiff hwnna'r tro" meddai gan hanner meddwl am effaith ei ddewisiadau siopio ar yr amgylchedd - dydi Spitzbergen neu Ynysoedd y Ffaero ddim yn ben draw'r byd, ond tybed?




Ar ôl cyrraedd adre sylwodd ar ragor o brint mân.....





# Clwb y Llygaid Bach

Llên Natur

# Adar y Glannau 1


*Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd*



**1. Gwylan goesddu** Gwylan y môr mawr yw hon sy'n nythu ar glogwyni ac yn gorffwys ar draethau a chreigiau gwastad; anaml y'i gwelir yn y mewndir. Mae'r big yn felynwyrdd a'r coesau a'r llygaid yn ddu. Y cefn llwyd, main yn drawiadol. Mae'r aderyn ifanc yn fwy di-nod, yn felynllwyd ei adenydd, yn llwyd ei war, yn frown ei goesau ac yn dywyll ei bîg. Yn y gaeaf, bydd gwar lwyd a chlust ddu gan yr aderyn llawn dwf. Yr aderyn ifanc yn hynod am fod ganddo resen igam-ogam ddu ar gefn golau, a choler ddu a phîg ddu.




**2. Gwylan y penwaig** Un o'r gwylanod mwyaf ei maint sydd weithiau cyhyd â 66 cm, hefyd yn un rheibus ac ysglyfaethus, gan wledda ar bob math o bethau, gan gynnwys cywion gwylanod eraill. Ei sŵn yn debyg i sgrechian chwerthin. Gall hefyd wneud sŵn neu gri perygl a thro arall sŵn isel tebyg i gyfarth ci pan mae mewn argyfwng. Mae'r cywion yn gwneud sŵn unigryw sy'n cael ei ailadrodd: tebyg i 'pîîp', gan fflicio eu pennau yr un pryd. Yn rhyfedd iawn, mae oedolion y gwylanod hefyd yn gwneud hyn pan cânt eu bwydo gan bobl.



**3. Pâl** Mae'n aderyn môr adnabyddus, oherwydd y pig mawr lliwgar. Yn byw ar bysgod bach, ac yn eu dal trwy blymio i'r dŵr a'u hymlid trwy nofio dan y dŵr. Yn y gaeaf treulia ei amser ar y môr, ond dychwela i nythu. Defnyddir twll yn y ddaear ar gyfer nythu, e.e. hen dwll cwningen. Fel rheol maent yn nythu yn filoedd o barau. Un cyw sy'n cael ei fagu ar y tro. Gellir gweld y rhieni yn hedfan i mewn yn cario pysgod i'r cyw. Diolch i gymal arbennig yn ei big gallant gario nifer o bysgod bach wedi eu trefnu'n daclus mewn rhes yn y pîg.



**4. Mulfran** Mae'n nythu ger glan y môr fel rheol, ar glogwyni neu mewn coed, ond mae nifer gynyddol yn nythu ymhell o'r môr e.e. Craig y Deryn. Adeiledir y nyth o frigau a gwymon fel rheol, ac mae'n dodwy 3 neu 4 wy. Pysgod yw ei brif fwyd, ac mae'n eu dal drwy nofio o dan y dŵr, un ai ar y môr neu ar lynnoedd ac afonydd. Gall blymio'n ddwfn i'r dŵr a threulio hyd at 30 eiliad dan yr wyneb.



**5. Gwylog** Aderyn y môr sy'n debyg i bengwin gyda chorff hir, coesau byr a phîg fain. Plymia o wyneb y dŵr. Mae'n nythu ar glogwyni serth. Cefn brown tywyll sydd gan ffurf y de a chefn du gan ffurf y gogledd tra bo'r bol yn wyn, ond yn yr haf yn dywyll. Yn y gaeaf bydd ei chap yn dywyll a stripen y tu ôl i'w llygad ar ei boch wen. Cynffon fer sgwâr. Bydd nifer fawr yn nythu ar glogwyni morol Cymru gan gynnwys Pen y Gogarth. Yn bwydo ar bysgod.



**6. Pioden y môr** Aderyn cyffredin ger glan y môr, hawdd ei adnabod gyda chefn du a bol gwyn, pîg mawr coch a choesau coch. Yr adar ieuanc yn fwy brown o ran lliw. Eu bwyd yw cregyn a phryfed ar lan y môr, ac mae'n arbenigwr ar agor cregyn. Mae rhai adar yn arbenigo mewn rhoi y pîg i mewn rhwng dau hanner y gragen i'w hagor, tra bo eraill yn torri twll trwy'r gragen, ac mae siâp y pîg yn wahanol yn ôl y dull mae'r aderyn hwnnw yn ei ddefnyddio. Yn nythu ar lan y môr fel rheol, ond weithiau ar lannau llynnoedd.

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 1 | __________ | ______________________ | 35 |
| 2 | __________ | ______________________ | 10 |
| 3 | __________ | ______________________ | 40 |

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 4 | __________ | ______________________ | 20 |
| 5 | __________ | ______________________ | 25 |
| 6 | __________ | ______________________ | 20 |

**Cofiwn y diweddar Gareth Pritchard oedd yn cyfrannu yn frwd iawn i adnoddau plant yn GLAS ac yn LLYGAID BACH LLÊN NATUR. Mae ei holl waith ar gael (gan gynnwys y doleni i glywed caneuon yr adar) drwy glicio ar symbol y clustffonau. Dyma'r ddolen at bosteri Gareth: CYHOEDDIADAU**